

# Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2019



# Gair am y ddogfen hon

Dyma ail adroddiad blynyddol *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* gan Ofcom. Mae'r adroddiad yn adolygu patrymau allweddol yn y sector teledu a chlyweledol yn ogystal â'r diwydiant radio a sain yng Nghymru. Mae'n rhoi cyd-destun i'r gwaith mae Ofcom yn ei wneud i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr a dinasyddion yn y marchnadoedd a reoleiddir gennym.

Yn ogystal â'r adroddiad yma am Gymru, mae adroddiadau ar wahân ar gyfer y DU drwyddi draw, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag [adroddiad data rhyngweithiol](#).

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o setiau data, gan gynnwys data pwrpasol wedi'i gasglu'n uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (ar gyfer allbwn, gwariant a refeniw yn 2018), ymchwil defnyddwyr perchnogol Ofcom (ar gyfer barn y gynulleidfa), a BARB a RAJAR (ar gyfer defnydd cynulleidfa). Dylid nodi nad yw ein pwerau rheoleiddio yn caniatáu i ni gasglu data'n uniongyrchol o wasanaethau fideo ar alwad ar-lein a gwasanaethau rhannu fideos (fel ITV Player, Netflix, Amazon Prime Video ac YouTube) at ddibenion ymchwil, ac felly rydym hefyd yn defnyddio ffynonellau trydydd parti ar gyfer gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hyn.

# Cynnwys

|                                                 |    |
|-------------------------------------------------|----|
| Gair am y ddogfen hon .....                     | 1  |
| Prif bwyntiau .....                             | 3  |
| Dyfeisiau a gwasanaethau teledu.....            | 5  |
| Gwyllo ar sgrin .....                           | 10 |
| Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru..... | 22 |
| Radio a sain.....                               | 29 |



# Prif bwyntiau

## Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru wedi gwyllo 3 awr 33 munud o deledu wedi'i ddarlledu yn 2018 - naw munud yn llai nag yn 2017

- Gwelwyd gostyngiad o 4.3% yn y munudau o deledu sy'n cael eu gwyllo ar gyfartaledd rhwng 2017 a 2018 o'i gymharu â chyfartaledd o 5.2% ar draws y DU drwyddi draw.
- Mae gwyllo gwasanaethau nad ydyn nhw'n cael eu darlledu ar y teledu (fel gwasanaethau ffrydio, megis Netflix, Amazon Prime Video a chwarae gemau) wedi cynyddu 10 munud y pen y dydd yn 2018, i 54 munud.
- Pennod agoriadol *I'm A Celebrity - Get Me Out Here!* ar ITV Cymru Wales oedd y rhaglen a gafodd ei gwyllo fwyaf sy'n cael ei ddarlledu ar setiau teledu yng Nghymru yn 2018. Llwyddodd y bennod i ddenu cynulleidfa o 878k ar gyfartaledd a 62.6% o'r bobl sy'n gwyllo'r teledu ar yr adeg honno.

## Mae gan bron i hanner (48%) cartrefi Cymru deledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd

- Roedd bron i chwech o bob deg oedolyn (56%) yng Nghymru yn defnyddio gwasanaeth ar-alw/ffrydio, fel Netflix, Amazon Prime Video a BBC iPlayer, yn 2019. Roedd hyn yn debyg i wledydd eraill y DU, ac nid oedd hyn wedi newid ar gyfer pob un ers y llynedd.
- Ymysg y gwasanaethau hyn, roedd lefelau defnydd honedig o BBC iPlayer a Netflix yn debyg (34% a 28% yn y drefn honno), wedyn ITV Hub (25%).

## Roedd y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifol am dros hanner yr holl deledu a gafodd ei wyllo a'i ddarlledu yng Nghymru yn 2018

- Roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am gyfran o 53%, gyda'i gilydd, o gyfanswm cynulleidfa teledu a gafodd ei ddarlledu yng Nghymru yn 2018.
- Y teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf gan bobl i gael gafael ar newyddion yng Nghymru, gyda BBC One ac ITV Cymru Wales yn dod yn gyntaf ac yn ail yn yr 20 uchaf o'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf.



## Roedd bron i dri chwarter y gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fodlon â darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2018

- Fodd bynnag, cafodd gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus sgôr is gan wylwyr yng Nghymru o'i gymharu â'r rheini yn Lloegr a'r Alban ar gyfer darpariaeth, yng nghyswllt *'dangos gwahanol rannau o'r DU, gan gynnwys Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru'*. Roedd 52% o wylwyr yng Nghymru wedi rhoi sgôr uchel i hyn o'i gymharu â 55% yn Lloegr a'r Alban, a 51% yng Ngogledd Iwerddon.

## Yn 2018, gwelwyd cynnydd o 13% i £33.6m yng ngwariant y BBC ac ITV Cymru, gyda'i gilydd, ar raglenni i Gymru

- Roedd y gwariant ar raglenni materion cyfoes yn £4.4m, i lawr o £4.6m yn y flwyddyn flaenorol; roedd y gwariant ar newyddion yn sefydlog ar £10.5m, ond roedd y gwariant ar raglenni eraill gan gynnwys adloniant cyffredinol yn 26% yn uwch ar £18.7m.
- Mewn termau real, cynyddodd gwariant gan y BBC 16% i £27.3m yn 2018, y lefel uchaf ers 2009. Roedd gwariant ITV Cymru Wales ar raglenni lleol wedi cynyddu fymryn ar £6.3m.
- Cynhyrchodd y BBC 615 awr o raglenni lleol yn 2018, tebyg i'r flwyddyn flaenorol, a chynhyrchodd ITV 343 awr o raglenni lleol, 4% yn fwy nag yn 2017.

## Mae naw o bob deg oedolyn yn gwrando ar radio byw bob wythnos yng Nghymru, gan wrando am fwy na 22 awr bob wythnos

- Mae gan orsafoedd cenedlaethol y BBC gyfran uwch (49%) o oriau gwrando yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill, ac mae gan orsafoedd masnachol ledled y DU gyfran is (18%) o oriau gwrando nag mewn mannau eraill. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith mai BBC Radio 2 yw'r orsaf fwyaf poblogaidd ar draws Cymru.
- Mae bron i dri oedolyn o bob deg yng Nghymru yn berchen ar radio digidol.
- Gwelwyd mymryn o gynnydd yn y gyfran o oriau gwrando drwy lwyfannau digidol (DAB, ar-lein a theledu daearol digidol) yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf i 47.8% yn Ch1 2019 ac mae'n dal yn is na'r cyfartaledd ar draws y DU o 56.4%.
- Yn y cyfamser, mae'r nifer sy'n berchen ar seinyddion clyfar, ac yn eu defnyddio i ffrydio cerddoriaeth a gwrando ar radio byw, wedi cynyddu, bron i chwarter (24%) y cartrefi.



# Dyfeisiau a gwasanaethau teledu

## Cyflwyniad

Mae gwasanaethau teledu ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd yng Nghymru. Mae Freeview ar gael drwy deledu daearol digidol a chaiff ei ddarparu drwy erial teledu, ac mae Sky a Freesat yn cynnig gwasanaethau lloeren ac mae Virgin Media yn cynnig gwasanaeth teledu cebl.

Mae blychau pen-set gan ddarparwyr gan gynnwys TalkTalk a BT yn cynnig gwasanaeth Freeview ochr yn ochr â sianeli teledu drwy dalu, sy'n cael eu darparu drwy gysylltiad â'r rhyngwrdd. Weithiau mae'r rhain yn cael eu galw yn deledu protocol rhyngwrdd (IPTV).

Mae nifer o wasanaethau ar-alw a ffrydio hefyd ar gael i ddefnyddwyr dros y rhyngwrdd. Mae'r rhain yn amrywio o wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel BBC iPlayer, ITV Hub, Clic S4C, All 4 a My5 i'r gwasanaethau tanysgrifio sy'n cael eu cynnig gan Netflix ac Amazon Prime Video.

Mae'r llwyfannau hyn yn dibynnu ar wahanol seilwaith i ddarparu eu gwasanaethau. Mae Freeview yn dibynnu ar rwydwaith o brif drosglwyddyddion a throsglwyddyddion ategol ledled Cymru i ddarparu gwasanaeth i gartrefi pobl. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael yn eang ond ddim i bawb ledled Cymru.

Yr oll sydd angen i ddefnyddiwr ei wneud gyda lloeren yw ei osod ar ei gartref, ac mae hyn ar gael i bawb ledled Cymru.<sup>1</sup> Mae darpariaeth cebl, o'i chymharu, yn fwy cyfyngedig gan ei fod yn mynnu bod darparwr wedi gosod cebl heibio'r eiddo er mwyn ei gysylltu.

Mae gwasanaethau fel Netflix, Amazon Prime Video ac YouTube yn cael eu darparu ar-lein drwy setiau teledu cysylltiedig yn ogystal â ffonau symudol a dyfeisiau tabled. Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod gan wyth o bob deg (79%) o gartrefi yng Nghymru gysylltiad rhyngwrdd sefydlog yn 2019; mae 75% o oedolion yn berchen ar ffôn clyfar erbyn hyn, ac mae gan 65% o gartrefi yng Nghymru ddyfais tabled.<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> Yn seiliedig ar a oes llwybr llinell welediad i'r lloeren ar gael. Nid yw'n cynnwys effaith ffactorau fel mynediad mewn unedau sawl annedd lle nad yw'n ymarferol gosod lloeren benodol ar gyfer cartref a lle nad oes system dosbarthu fewnol gyda gwifren ar gyfer lloeren, neu'r angen am ganiatâd cynllunio mewn rhai lleoliadau.

<sup>2</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019

## Mae gan 97.9% o eiddo yng Nghymru ddarpariaeth teledu daearol digidol yn 2019<sup>3</sup>

Mae gwasanaethau teledu daearol digidol, sy'n cael eu darparu drwy erial teledu, yn cael eu darparu yng Nghymru drwy gyfuniad o amblecsau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a masnachol. Yr amblecsau hyn yw'r seilwaith trawsyrru sy'n darparu'r sianeli sydd ar lwyfan Freeview.

Mae enghreifftiau o wasanaethau ar amblecsau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys BBC One, ITV Cymru, S4C, Channel 4 a Channel 5, ac mae amblecsau COM yn darparu mynediad at wasanaethau fel Dave, Sky News ac E4.

O fis Ionawr 2019 ymlaen, roedd gan 97.9% o eiddo yng Nghymru fynediad at wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus craidd. Mae darpariaeth amblecsau masnachol, sy'n cael eu cludo ar nifer o drosglwyddyddion llai, yn cyrraedd 72.6% o eiddo.<sup>4</sup>

Roedd gan gyfran uwch o gartrefi (96.6%) yng Nghymru deledu yn chwarter cyntaf 2019 nag yn Lloegr (95.1%) neu'r Alban (94.5%). Roedd gan dros un rhan o dair o gartrefi Cymru (36.3%) deledu daearol digidol fel eu hunig lwyfan teledu yn Ch1 2019.<sup>5</sup>

## Mae gan bron i hanner cartrefi Cymru wasanaeth lloeren

Mae gwasanaethau teledu lloeren yn cael eu darparu gan Sky a Freesat ac maen nhw ar gael i tua 98% o adeiladau'r DU<sup>6</sup>, ac maen nhw ar gael i tua'r un lefel ledled Cymru.

Gwasanaeth lloeren drwy dalu oedd y ffurf fwyaf poblogaidd o wasanaeth teledu drwy dalu yng Nghymru ddechrau 2019, gan wasanaethu 38.1% o gartrefi. Roedd gan 9.8% arall wasanaeth lloeren am ddim, gan Freesat mwy na thebyg, a oedd yn golygu, ar 47.9%, bod gwasanaeth lloeren mewn cyfran fwy o gartrefi yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad arall (37.1% oedd cyfartaledd y DU).<sup>7</sup>

## Roedd gan bron i un o bob deg cartref wasanaeth teledu cebl

Roedd gwasanaeth cebl Virgin Media ar gael i dros 300,000 o adeiladau yng Nghymru (22.8%) ym mis Ionawr 2018. Mae hyn yn is nag yn Lloegr (49.6%), yr Alban (41%) a Gogledd Iwerddon (39.2%).<sup>8</sup> Ar ddechrau 2019, Cymru oedd â'r gyfran isaf o gartrefi o blith yr holl wledydd a oedd yn defnyddio gwasanaethau teledu cebl (8.1%).

<sup>3</sup> Dadansoddiad Ofcom o ddarpariaeth teledu daearol digidol a data gweithredwyr, Ionawr 2019

<sup>4</sup> Dadansoddiad Ofcom o ddarpariaeth teledu daearol digidol a data gweithredwyr, Ionawr 2019

<sup>5</sup> Arolwg Sefydli BARB Ch1 2019

<sup>6</sup> Yn seiliedig ar a oes llwybr llinell welediad i'r lloeren ar gael. Nid yw'n cynnwys effaith ffactorau fel mynediad mewn unedau sawl annedd lle nad yw'n ymarferol gosod lloeren benodol ar gyfer cartref a lle nad oes system dosbarthu fewnol gyda gwifren ar gyfer lloeren, neu'r angen am ganiatâd cynllunio mewn rhai lleoliadau


<sup>7</sup> Arolwg Sefydli BARB Ch1 2019

<sup>8</sup> Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Ionawr 2019

## Mae gwasanaethau IPTV yn llai poblogaidd yng Nghymru nag yng ngweddill y DU

Roedd cyfran y cartrefi sydd â theledu protocol rhyngwrwyd (IPTV) yn unig (blwch pen-set BT TV, TalkTalk TV, Plusnet TV, neu flwch YouView annibynnol, a dim lloeren, cebl na gwasanaeth arall), yn ddim ond 4.8% yng Nghymru yn Ch1 2019, yr isaf o blith holl wledydd y DU.<sup>9</sup>

**Ffigur 1: Defnyddio llwyfannau yng Nghymru, cartrefi: 2012-2019 (000oedd)**



*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB. Ardal BBC Cymru. Data ar lefel cartrefi, yr holl setiau teledu yn y cartref, felly mae gorgyffwrdd rhwng llwyfannau. Nodiadau: Mae'r pwyntiau data yn seiliedig ar Ch4 bob blwyddyn tan 2018 lle mae'n Ch1. O Ch4 2015 cafodd yr elfen 'defnydd honedig' ei dynnu a arweiniodd at gynnydd yn y boblogaeth 'cartrefi â setiau teledu'. 'Teledu daearol digidol yn unig' = derbyn teledu digidol drwy erial ac nid drwy DSAT/DCAB neu lwyfannau eraill. 'Teledu daearol digidol IPTV hybrid yn unig' = yn derbyn teledu daearol digidol drwy unrhyw un o lwyfannau BT TV/TalkTalk TV/YouView/Plusnet TV a dim DSAT/DCAB/llwyfannau eraill.*

## Mae gan bron i hanner cartrefi Cymru deledu sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngwrwyd

Mae nifer y cartrefi sydd wedi cysylltu eu teledu â'r rhyngwrwyd yn cynyddu ledled y DU. Yn ogystal â defnyddio teledu clyfar, mae modd cysylltu dyfeisiau eraill (fel blwch pen-set, ffon ffrydio, consol gemau, ac ati), er mwyn gallu gwyllo cynnwys ar-lein ar set deledu.

Roedd gan bron i hanner (48%) cartrefi Cymru ryw fath o deledu wedi'i gysylltu yn 2019, 57% yn Lloegr, 56% yn yr Alban a 67% yng Ngogledd Iwerddon.<sup>10</sup>

<sup>9</sup> Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2019

<sup>10</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019



## Mae bron i chwe oedolyn o bob deg yng Nghymru yn defnyddio gwasanaethau fideo ar alw

Yn 2019, defnyddiodd pumdeg chwech y cant o oedolion yng Nghymru wasanaeth ar-alw/ffrydio, fel Netflix, Amazon Prime Video a BBC iPlayer. Roedd hyn yn debyg i wledydd eraill y DU, ac nid oedd hyn wedi newid ar gyfer pob un ers y llynedd.<sup>11</sup>

Ymysg pob un o'r gwasanaethau hyn, roedd lefelau defnydd BBC iPlayer a Netflix yn debyg, a chyda'r uchaf, (34% a 28% yn y drefn honno), wedyn ITV Hub (25%).<sup>12</sup>



Roedd oddeutu un o bob deg o'r ymatebwyr yn 2019 yn dweud eu bod yn defnyddio gwasanaethau eraill fel YouTube (13%), Amazon Prime Video (11%), All4 (11%) a My5 (10%). Unwaith eto, nid oedd ymatebwyr yng Nghymru yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn fwy ers 2018.<sup>13</sup>

Nid yw talu am gynnwys ar-alw yn ddigon i atal pobl, gan fod gan bron i hanner (45.8%) yr holl gartrefi yng Nghymru wasanaeth fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) yn Ch1 2019. Mae hyn wedi codi o 38.1% yn Ch1 2018. Fel gyda gweddill y DU, Netflix yw'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd (yn 40.4% o bob cartref yng Nghymru).<sup>14</sup>

### Mae mwy o wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio ar y ffordd

Mae Disney a WarnerMedia, Apple a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU, y BBC ac ITV, yn bwriadu lansio eu gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio eu hunain yn 2019.

Bydd **Apple TV+** yn lansio yn ystod yr hydref 2019 ac yn fyd-eang yn fuan ar ôl hynny. Bydd yr ap ar gael ar ddyfeisiau eraill ac nid yn gyfyngedig felly i ddefnyddwyr dyfeisiau Apple. Bydd y gwasanaeth yn darparu cynnwys gwreiddiol heb hysbysebion o gwbl; ar hyn o bryd, mae gan Apple 30 o ffilmiau a chyfresi gwe gwreiddiol wedi'u paratoi. Mae'r Tywysog Harry ac Oprah yn gweithio ar gyfres ddogfen ar iechyd meddwl ar gyfer y gwasanaeth.

Nid oes gan **Britbox**, menter ar y cyd rhwng BBC ac ITV, ddyddiad lansio pendant eto, ac yn ôl adroddiadau, bydd yn costio £5 y mis. Mae disgwyl i'r gwasanaeth ddangos cynnwys o'r archif yn ogystal â chynnwys gwreiddiol BritBox sydd wedi'i gomisiynu gan gwmnïau cynhyrchu yn y DU. Mae Britbox wedi bod ar gael yn UDA ers mis Mawrth 2017.

<sup>11</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019

<sup>12</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019

<sup>13</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019

<sup>14</sup> Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2019

Bydd **Disney+** yn cael ei lansio yn UDA ar 12 Tachwedd 2019 ac yn fyd-eang yn fuan ar ôl hynny (nid oedd dyddiad lansio ar gyfer y DU wedi'i gyhoeddi adeg ysgrifennu hyn). Cost y gwasanaeth fydd £5.99 y mis. Bydd DisneyLife yn rhoi'r gorau i weithredu unwaith y bydd Disney+ yn cael ei lansio. Bydd Disney+ yn ffrydio cynnwys o'i frandiau poblogaidd Marvel, Lucasfilm a Pixar, a bydd yn cynnig 500 o ffilmiau a mynediad at 7,500 o benodau. Bydd gwasanaethau Hulu ac ESPN yn cael eu cynnig hefyd fel bwndel gyda'r gwasanaeth.

Bydd **WarnerMedia** yn cael ei lansio ddiwedd 2019 hefyd. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys HBO a Turner yn ogystal â chynnwys WarnerMedia. Nid yw'r pris ar gyfer y gwasanaeth wedi cael ei gyhoeddi eto.



# Gwyllo ar sgrin

## Cyflwyniad

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y gwasanaethau teledu newydd sy'n cael eu darparu dros y rhyngwrdd. Ar yr un pryd, mae gwylwyr wedi dechrau defnyddio dyfeisiau newydd, fel ffonau clyfar a chyfrifiaduron tabled, i weld hyn a chynnwys arall. Mae gwylwyr iau, yn enwedig, yn defnyddio'r gwasanaethau a'r dyfeisiau hyn yn frwd.

Mae hyn, yn anochel, yn cael effaith ar ein harferion gwyllo teledu. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos bod y duedd hon yn raddol yn hytrach na'i bod yn digwydd yn syth. Mae'r nifer sy'n defnyddio'r hyn y gellid ei alw'n wasanaethau a llwyfannau teledu 'traddodiadol', fel Freeview, lloeren a chebl, yn dal yn gryf. Ac er bod gostyngiad pellach wedi bod yn y nifer sy'n gwyllo teledu byw yn 2018 yn holl wledydd y DU, dyma sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o amser sgrin pobl o hyd.


## O ble daw ein data

Mae'r adran hon yn defnyddio data sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB), panel cynrychioladol cenedlaethol o tua 5,300 o gartrefi ledled y DU (gyda dros 400 o gartrefi yng Nghymru) sy'n darparu'r mesuriadau teledu a ddarlledir swyddogol ar gyfer y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys yr holl wyllo teledu a ddarlledir drwy set deledu, a drwy unrhyw ddyfais sydd ynghlwm wrth y teledu fel cyfrifiadur, dyfais ffrydio neu flwch pen-set. Mae BARB hefyd wedi dechrau mesur beth mae pobl yn ei wyllo ar gyfrifiaduron personol/gliniaduron, dyfeisiau tabled a ffonau clyfar heb eu cysylltu â'r set deledu, i fonitro lefelau gwyllo gwasanaethau fideo ar-alw darlledwyr (BVoD). Ond, nid yw'r dull mwy newydd hwn o fesur dyfeisiau eraill yn gyflawn ac nid yw'n safon y diwydiant eto. Oni nodir fel arall, mae'r ffigurau a nodir ar gyfer gwyllo wedi'i gyfuno dros saith niwrnod ar set deledu. Mae gwyllo wedi'i gyfuno'n cynnwys gwyllo rhaglenni ar yr adeg maen nhw'n cael eu darlledu ar y teledu (gwyllo byw) yn ogystal ag o recordiadau ar recordwyr fideo digidol (DVRs) a drwy wasanaethau chwaraewyr dal-i-fyny (ee apiau ar setiau teledu clyfar) hyd at saith niwrnod ar ôl y darllediad cyntaf (gwyllo'n ddiweddarach). Edrychwch ar yr [atodiad methodoleg i gael rhagor o wybodaeth](#)

## Yn ystod 2018, treuliodd pobl Cymru 3 awr 33 munud y dydd ar gyfartaledd yn gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu

Cymru a'r Alban oedd â'r gyfran gyfartalog uchaf bob dydd sy'n gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar set deledu yn 2018 – a oedd yn uwch na chyfartaledd y DU o 3 awr 12 munud. Fel gyda gweddill y DU, mae gwylio wedi bod yn gostwng bob blwyddyn, ac mae Cymru wedi dilyn yr un patrwm cyffredinol â'r hyn a welir ar gyfartaledd yn y DU. Rhwng 2017 a 2018, roedd amser gwylio wedi disgyn 10 munud (4.3%) yng Nghymru; dyma'r gostyngiad lleiaf o blith yr holl wledydd ac yn llai na'r cyfartaledd o 5.2% ar draws y DU.

**Ffigur 2: Swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd, y pen, yn ôl gwlad: 2010-2018**




*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).*

## Roedd y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd gwylio teledu wedi'i ddarlledu ymysg y grŵp 45-54 oed


LluniGwelwyd gostyngiad yng nghyfanswm y ffigurau gwylio teledu ar gyfer pob grŵp demograffig yn 2018 ac eithrio'r grŵp 35-44 oed, a arhosodd yn gyson. Y gostyngiad mwyaf o un flwyddyn i'r llall oedd ymysg pobl 45-54 oed yn 2018; roedd eu hamser yn gwylio teledu a ddarlledir ar set deledu wedi disgyn 34 munud (13%) i 3 awr 43 munud.

Gwelwyd gostyngiad mawr o 11% i 1 awr a 21 munud yn lefelau gwylio plant hefyd, er roedden nhw'n dal yn gwylio mwy na'r gwledydd eraill a chyfartaledd y DU. Mae gwylio teledu ymysg pobl dros 54 oed wedi gostwng 8 munud i 5 awr 50 munud yng Nghymru, ond dyma'r ffigur uchaf o hyd ar gyfer y grŵp oed hwn yn unrhyw un o wledydd y DU.

Mae gwylio ymysg pobl rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru wedi disgyn 61% ers 2010 – gostyngiad mwy na chyfartaledd y DU o 49% ar gyfer y grŵp oed hwn.



**Ffigur 3: Swm cyfartalog y munudau gwyllo y dydd, y pen, yn ôl oedran yng Nghymru:**




Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru, pob unigolyn (4+).

## Arhosodd cyfanswm amser sgrin teledu yng Nghymru yn sefydlog

Yn yr un modd â gweddill y DU, er bod pobl yng Nghymru yn gwyllo llai o deledu wedi'i ddarlledu, maen nhw'n treulio mwy o amser yn gwyllo pethau eraill ar eu setiau teledu. Roedd gwyllo gwasanaethau nad ydyn nhw'n cael eu darlledu ar setiau teledu (fel gwasanaethau ffrydio, megis Netflix, Amazon Prime Video, YouTube a chwarae gemau) wedi cynyddu 10 munud y pen y dydd yn 2018, i 54 munud. Mae hyn yn golygu bod y defnydd cyffredinol o'r set deledu yn 2018 wedi aros yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall, gyda munudau bob dydd ar gyfartaledd yn 4 awr 32 munud.

**Ffigur 4: Nifer gyfartalog y munudau bob dydd o amser sgrin teledu y pen yng Nghymru**



Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru, pob unigolyn (4+). \* Nodyn: Mae Gwyllo anghysbys (unmatched viewing) yn cyfeirio at adeg pan fydd y teledu yn cael ei ddefnyddio, ond nad oes modd cysylltu'r cynnwys â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwyllo DVDs/cyfresi/archifau, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw, gwyllo'n ddiweddarach ar ôl 28 diwrnod, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeirddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Nid yw gorsafoedd radio digidol lle mae'r sain yn cael ei gysylltu wedi'u cynnwys.



## Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus?


Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu yng Nghymru gan y BBC, Channel 4 Corporation (C4C), ITV (sy'n dal trwydded Channel 3 yng Nghymru), Channel 5 ac S4C. Er bod holl wasanaethau teledu'r BBC yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr eraill sydd yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel newyddion a chynrychiadau gwreiddiol, mae'r darlledwyr hyn yn cael manteision penodol: mynediad i sbectrw m (y tonnau radio gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau; amlygrwydd ar gyfeirddion rhaglenni electronig ar deledu; ac, yn achos y BBC, ffi' drwydded.

## Mae cyfran y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi aros yr un fath ers 2017

Roedd y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am gyfran o 53.1%, gyda'i gilydd, o gyfanswm cynulleidfa teledu a gafodd ei ddarparu yng Nghymru yn 2018. Mae'r gyfran o'r gynulleidfa yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr, ond yn is nag yn yr Alban. I roi cyd-destun, mae dros 270 o sianeli BARB yn y DU, ar gael i'w gweld drwy deledu digidol daearol, lloeren, cebl a llwyfannau eraill.

BBC One oedd â'r gyfran uchaf o'r gynulleidfa o blith unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol ar 22.7%, ac roedd hyn yn uwch na chyfran BBC One yn y gwledydd eraill.

**Ffigur 5: Cyfran ganrannol o gyfanswm gwyltio teledu yng ngwledydd y DU ar gyfer y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2018**



*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+). Mae'r sianeli'n cynnwys amrywiadau HD ond nid yr amrywiadau +1.*

## Dyfodol newydd ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Ofcom amryw o fesurau i sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i ddarparu cynnwys o ansawdd uchel i wylwyr a gwrandawyr yn y DU.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn rym diwylliannol pwerus ers dros 80 mlynedd, ac mae'n parhau i fod yn rhan ganolog o arloesi a buddsoddi mewn darlledu, gan helpu i ategu economi greadigol ehangach y Deyrnas Unedig.

Ond mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus bellach ar groesffordd hollbwysig, wrth i ddarlledwyr wynebu cystadleuaeth gan wasanaethau ar-alw byd-eang a gwasanaethau rhyngwrwyd tebyg i Netflix, Amazon Prime Video a YouTube.

Felly, mae Ofcom wedi cyflwyno pecyn o fesurau, gan gynnwys argymhellion i'r Llywodraeth, i gynorthwyo darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn awr ac yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- diweddarau rheolau i sicrhau bod sianeli traddodiadol teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn [amlwg ac yn hawdd dod o hyd iddynt](#) mewn cyfeiryddion rhaglenni;
- gwneud argymhellion i'r Llywodraeth ynghylch deddfwriaeth newydd i helpu i sicrhau bod rhaglenni a chwmnïau darlledu gwasanaeth cyhoeddus hefyd [yn amlwg ar ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu i'r rhyngwrwyd](#), megis setiau teledu clyfar, blychau pen-set a ffyn ffrydio;
- cymeradwyo nifer o ymrwymadau gan ITV, Channel 4 a Channel 5 i roi mwy o bwyslais ar [raglenni plant o ansawdd uchel](#); a
- lansio **Sgrîm Fach: Trafodaeth Fawr** – fforwm cenedlaethol i drafod dyfodol darlledu gwasanaethau cyhoeddus ar deledu ac ar-lein. Bydd yn galw ar Senedd y DU, rheoleiddwyr, darlledwyr a gwylwyr i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu [fframwaith newydd ar gyfer cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus](#) yn y dyfodol.

## ***I'm a Celebrity - Get Me Out of Here!* oedd y rhaglen deledu a gafodd ei gwyllo fwyaf yn 2018**

Pennod agoriadol *I'm A Celebrity - Get Me Out of Here!* ar ITV Cymru Wales oedd y rhaglen a gafodd ei gwyllo fwyaf sy'n cael ei ddarlledu ar setiau teledu yng Nghymru yn 2018. Llwyddodd y bennod i ddenu cynulleidfa o 878k ar gyfartaledd a 62.6% o'r bobl sy'n gwyllo'r teledu ar yr adeg honno. Roedd hyn yn uwch na'r rhaglen a oedd ar y brig yn 2017, *Six Nations Rugby: Wales v Ireland*, a oedd ar yr awyr ar BBC One Wales (806k o unigolion yn gwyllo ar gyfartaledd, 54.7% o'r gyfran gwyllo).

**Ffigur 6: Yr 20 rhaglen a gafodd eu gwyllo fwyaf yng Nghymru: 2018**

| Safle | Teitl y Rhaglen                         | Sianel          | Dyddiad    | Cyfartaledd (miloedd) | % TVR | Cyfran % |
|-------|-----------------------------------------|-----------------|------------|-----------------------|-------|----------|
| 1     | I'm A Celebrity - Get Me Out Of Here!   | ITV Cymru Wales | 18/11/2018 | 878                   | 30.5  | 62.6     |
| 2     | Cwpan y Byd 2018: Cro V Lloegr          | ITV Cymru Wales | 11/07/2018 | 770                   | 26.8  | 60.7     |
| 3     | Bodyguard                               | BBC One Wales   | 23/09/2018 | 737                   | 25.7  | 50.5     |
| 4     | Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru V Yr Alban    | BBC One Wales   | 03/02/2018 | 734                   | 25.6  | 71.4     |
| 5     | Rygbi: Chwe Gwlad yn Fyw 2018           | ITV Cymru Wales | 10/02/2018 | 732                   | 25.5  | 62.4     |
| 6     | Cwpan y Byd 2018: Sweden V Lloegr       | BBC One Wales   | 07/07/2018 | 684                   | 23.8  | 78.2     |
| 7     | Britain's Got Talent (Cyfres 12)        | ITV Cymru Wales | 28/04/2018 | 675                   | 23.5  | 55.5     |
| 8     | Tân Gwyllt Nos Calan                    | BBC One Wales   | 31/12/2018 | 663                   | 23.0  | 65.7     |
| 9     | Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru v yr Eidal    | BBC One Wales   | 11/03/2018 | 658                   | 22.9  | 68.6     |
| 10    | Call the Midwife                        | BBC One Wales   | 21/01/2018 | 619                   | 21.5  | 38.4     |
| 11    | Strictly Come Dancing                   | BBC One Wales   | 03/11/2018 | 616                   | 21.4  | 48.9     |
| 12    | Ant & Dec's Saturday Night Takeaway     | ITV Cymru Wales | 03/03/2018 | 602                   | 20.9  | 43.0     |
| 13    | Mrs Brown's Boys                        | BBC One Wales   | 01/01/2018 | 597                   | 20.7  | 46.8     |
| 14    | Vera                                    | ITV Cymru Wales | 07/01/2018 | 592                   | 20.5  | 40.8     |
| 15    | Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru V Ffrainc     | BBC One Wales   | 17/03/2018 | 589                   | 20.5  | 56.2     |
| 16    | Cwpan y Byd 2018: Col V Lloegr          | ITV Cymru Wales | 03/07/2018 | 588                   | 20.4  | 53.1     |
| 17    | Strictly Come Dancing: Y Rownd Derfynol | BBC One Wales   | 15/12/2018 | 586                   | 20.3  | 49.2     |
| 18    | Cwpan y Byd 2018: Tun V Lloegr          | BBC One Wales   | 18/06/2018 | 586                   | 20.3  | 48.2     |
| 19    | Mrs Brown's Boys Christmas Special      | BBC One Wales   | 25/12/2018 | 581                   | 20.1  | 45.9     |
| 20    | Rygbi'r Chwe Gwlad: Ffrainc v Iwerddon  | BBC One Wales   | 03/02/2018 | 568                   | 19.8  | 53.6     |


*Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru, pob unigolyn (4+). Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 15 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn. Y TVR (sgôr teledu) ydy mesur poblogrwydd rhaglen, rhan o ddiwrnod, egwyl fasnachol neu hysbyseb drwy gymharu ei chynulleidfa â'r boblogaeth yn gyffredinol. Mae un TVR yn cyfateb yn rhifol i 1% o gynulleidfa darged.*

## Roedd bwletinau newyddion BBC One Wales ac ITV Cymru Wales yn gynnwys min nos wedi denu cyfran is yng Nghymru na'r sianeli cyfatebol yn y gwledydd datganoledig eraill

Roedd y nifer a oedd yn gwyllo *Wales Today*, bwletin newyddion BBC One Wales yn gynnwys min nos, wedi gostwng o 29.2% o'r gyfran gwyllo ar gyfer y slot yng Nghymru yn 2017 i 26.9% yn 2018. Roedd hyn yn is na rhaglenni newyddion cyfatebol yn gynnwys min nos yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd rhaglen gyfatebol ITV Cymru Wales, *Wales at Six*, wedi cynyddu ei chyfran o'r gwyllo o 21.1% yn 2017 i 22.2% yn 2018; roedd ei chyfran yn debyg i gyfran gyfartalog Channel 3 yn y DU (22.9%) ar gyfer y slot hwn.<sup>15</sup>

<sup>15</sup> Ffynhonnell: BARB. Unigolion (4+). Cyfartaleddau'r DU yn seiliedig ar gyfran sy'n benodol ar gyfer slotiau amser bwletinau newyddion yn gynnwys min nos.

**Ffigur 7: % cyfran cynulleidfa newyddion BBC One Wales ac ITV Cymru Wales yn gynnar min nos: 2018**




*Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Sylwer: Ffigurau bwletin newyddion ('lleol') yn gynnar min nos ar sail rhaglenni genre 'newyddion rhanbarthol' BARB, yn dechrau rhwng 17:55 a 18:35 ac yn para 10 munud neu fwy, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac yn cynnwys y sianeli HD a +1 lle y bo'n berthnasol. Caiff bwletin newyddion BBC One yn gynnar min nos, Wales Today, ei ddarlledu rhwng 18:30 a 19:00 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd y BBC. Mae bwletin newyddion ITV Cymru Wales, Wales at Six, yn cael ei ddarlledu rhwng 18:00 a 18:30 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd ITV.*

## **BBC One ac ITV Cymru yw'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf gan bobl yng Nghymru**

Y teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf o hyd gan bobl i gael gafael ar newyddion yng Nghymru, gyda BBC One ac ITV Cymru Wales yn dod yn gyntaf ac yn ail yn yr 20 uchaf o'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf. Mae sianeli teledu, gan gynnwys Sky News a BBC News Channel, yn cynrychioli pedwar o'r deg uchaf o ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf yn 2019. Roedd llwyfannau ar-lein: Facebook, gwefan / ap y BBC a pheiriant chwilio Google, yn y trydydd, chweched a degfed safle, yn y drefn honno.<sup>16</sup>

<sup>16</sup> Ffynhonnell: [Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2019](#)

**Ffigur 8: 20 ffynhonnell newyddion uchaf yn gyffredinol yng Nghymru: 2019**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2019*

*Cwestiwn: Gan feddwl yn benodol am < llwyfan >, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sail: Pob oedolyn 16+ yng Ngogledd Iwerddon – 2019 = 475. Mae trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2019 a 2018.*

## BBC One, ITV Cymru a Facebook yw'r ffynonellau sy'n cael eu defnyddio amlaf gan bobl yng Nghymru sy'n chwilio am newyddion am eu gwlad eu hunain

I gael newyddion am eu gwlad eu hunain, y prif sianeli teledu; BBC One ac ITV, a Facebook ydy'r prif ffynonellau newyddion gan bobl yng Nghymru. Mae bron i hanner yr oedolion (44%) yn defnyddio BBC One, gydag oddeutu traean (35%) yn defnyddio ITV Cymru. Dywedodd chwarter yr oedolion eu bod yn defnyddio Facebook i gael newyddion am eu gwlad.

**Ffigur 9: Ffynonellau sydd wedi'u defnyddio i gael gafael ar newyddion am eu gwlad: 2019**



*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2019*

*Cwestiwn: O ba un o'r ffynonellau canlynol rydych chi'n cael newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn eich GWLAD y dyddiau hyn? Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n defnyddio teledu/papurau newydd/radio/rhynggrwyd/cylchgronau ar gyfer newyddion. Cymru =475. Mae trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2019 a 2018.*



## Newyddion a materion cyfoes: perthnasedd yng Nghymru

Ar ôl edrych ar gynrychiolaeth a phortreadu, mae Ofcom yn adolygu rhaglenni newyddion a materion cyfoes y BBC ar hyn o bryd, a sut mae'n addasu i newidiadau mewn amgylchedd newyddion. Bydd hyn yn sail ar gyfer y ffordd mae Ofcom yn asesu sut mae'r BBC wedi cyflawni diben 1 yn ystod cyfnod y Siarter.

Yng Nghymru, roedd gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi sgôr is i'r ystod o raglenni newyddion na gweddill y DU. Roedd saith deg y cant o wylwyr rheolaidd yng Nghymru wedi rhoi sgôr uchel i BBC One am ei ystod eang o newyddion o ansawdd. Roedd hyn yn is na chyfartaledd y DU, 75% (Cyfryngau'r Genedl 2018).

## Roedd cyrhaeddiad S4C wedi gostwng yn 2018

Mewn wythnos arferol yn ystod 2018, roedd 300,000<sup>17</sup> o wylwyr yng Nghymru wedi gwyllo S4C ar y teledu am o leiaf 3 munud yn olynol, 18% yn is nag yn 2017. Ar draws y DU, roedd cyrhaeddiad wythnosol S4C yn 466,000, 17% yn is nag yn 2017.

**Ffigur 10: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (miloedd) S4C - unigolion: 2010-2018**



*Ffynhonnell: BARB. Unigolion (4+). Cyfanswm ardal S4C a rhwydwaith S4C. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 3 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.*

<sup>17</sup> Mae'r ffigurau cyrhaeddiad yma wedi cael eu talgrynnu i'r 1000 agosaf.

## Adolygu S4C

Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ei hymateb i'r adolygiad annibynnol o S4C a gynhaliwyd gan Euryn Ogwen Williams. Derbyniodd y Llywodraeth yr argymhellion i ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared â'r cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol, er mwyn ei alluogi i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050; i ddarparu cyllid cyhoeddus S4C yn gyfan gwbl drwy ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o setliad cyllid ffi trwydded y BBC; i roi mwy o ryddid masnachol iddo; a disodli Awdurdod S4C â bwrdd unedol newydd a fydd yn cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol.

Ers yr adolygiad, mae S4C wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr hyn mae'n ei gynnig yn ddigidol wrth iddo esblygu o fod yn wasanaeth teledu yn unig i fod yn ddarparwr cynnwys digidol ar draws amrywiaeth o lwyfannau ledled y DU. Mae chwaraewr ar-lein S4C, S4C Clic, yn cael ei ddefnyddio mwy, a chafodd setiau cyfan eu cynnig am y tro cyntaf ddiwedd 2018, a mewngofnodi gorfodol o fis Mehefin 2019. Mae S4C wedi parhau i berfformio'n dda ar BBC iPlayer ar gyfer ffrydio byw a dal-i-fyny.

Cafodd nifer o raglenni S4C lwyddiant hollbwysig yn ystod 2018/19. Enillodd prosiect Z BAFTA Kids yn 2018 yn ogystal â'r rhaglen blant orau yng Ngwobrau RTS 2019. *Un Bore Mercher/Keeping Faith*, cynhyrchiad ar y cyd â BBC Cymru, oedd drama fwyaf llwyddiannus y BBC heb fod yn ddrama rhwydwaith ers dros 20 mlynedd. Mae ail gyfres *Un Bore Mercher* eisoes wedi'i darlledu ar S4C.

Ym mis Medi 2018, symudodd S4C ei phencadlys i Gaerfyrddin lle mae'n denant angor mewn canolfan newydd a ddatblygwyd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae S4C yn dal i fod â phresenoldeb yng Nghaerdydd, lle bydd yn cyd-leoli ei swyddogaethau technegol a darlledu gyda BBC Cymru Wales yn natblygiad newydd y Sgwâr Canolog ar ôl iddo gael ei gwblhau.

## Sut mae gwylwyr yng Nghymru yn ystyried gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus


Roedd bron i dri chwarter y gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yn fodlon â darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2018 (74%). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y DU (74%) a Lloegr (74%), ac yn cymharu â 77% yng Ngogledd Iwerddon a 73 % yn yr Alban.<sup>18</sup>

O ran y ddarpariaeth newyddion rhanbarthol, roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru o'r farn bod darpariaeth BBC One (64%) ac ITV Cymru (63%) yn debyg iawn. Fodd bynnag, y canlyniadau hyn yw'r rhai isaf o'u cymharu â'r gwledydd eraill, sy'n awgrymu bod gwylwyr yng Nghymru yn llai bodlon â'r ddarpariaeth newyddion rhanbarthol.<sup>19</sup>

<sup>18</sup> Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2018

<sup>19</sup> Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2018

**Ffigur 11 Darpariaeth newyddion rhanbarthol o safon uchel yn y wlad, gan ddarparwr (sgôr 7-10)**



*Ffynhonnell: Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom 2018 C16 - I ba raddau y mae'r sianel yn cael 7-10 allan o 10 mewn perthynas â'r datganiad canlynol – Mae ei rhaglenni newyddion rhanbarthol yn cynnig amrywiaeth helaeth o newyddion o ansawdd da am fy ardal*

*Sail ar gyfer sianeli unigol: Gwylwyr pob un o'r sianeli hyn (yn hunangofnodi) ymhob gwlad (BBC One = 2069, 1411, 211, 230, 187; ITV1 = 1776, 1211, 192, 188, 185). Sail ar gyfer 'Pob sianel gyda'i gilydd': Pob ymatebydd sy'n gwyllo unrhyw sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar unrhyw adeg ymhob gwlad (2780, 1944, 274, 283, 279).*

Cafodd gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus sgôr is gan wylwyr yng Nghymru o'i gymharu â'r rheini yn Lloegr a'r Alban ar gyfer darpariaeth, yng nghyswllt 'dangos gwahanol rannau o'r DU, gan gynnwys Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru'. Roedd pumdeg dau y cant o wylwyr yng Nghymru wedi rhoi sgôr uchel i hyn, o'i gymharu â 55% yn Lloegr a'r Alban, a 51% yng Ngogledd Iwerddon.<sup>20</sup>

Roedd cynulleidfaoedd yng Nghymru (43%) wedi rhoi'r sgôr isaf o blith y gwledydd o ran cyflawni "Mae'n portreadu fy ngwlad/rhanbarth yn deg i weddill y DU". Ond, cafodd hyn sgôr gymharol isel ar draws yr holl wledydd – Lloegr (47%), Gogledd Iwerddon (44%) a'r Alban (45%).<sup>21</sup>

O ran cynrychioli amrywiaeth yn y gwledydd, rhoddodd 56% o gynulleidfaoedd yng Nghymru sgôr uchel o ran darparu 'rhaglenni sy'n dangos gwahanol fathau o ddiwylliannau yn y DU'. Roedd hyn yn cymharu â 57% yn Lloegr, 58% yn yr Alban a 51% yng Ngogledd Iwerddon.<sup>22</sup>

## Agweddau at deledu yng Nghymru

Un o ddyletswyddau Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ydy sicrhau bod pobl sy'n gwyllo'r teledu ac yn gwrando ar y radio yn cael eu diogelu'n briodol oddi wrth ddeunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd. Mae traciwr cyfryngau ar draws llwyfannau Ofcom yn edrych yn flynyddol ar agweddau at iaith sy'n peri tramgwydd, rhyw a thrais.

<sup>20</sup> Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2018

<sup>21</sup> Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2018

<sup>22</sup> Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2018

Nid oes gwahaniaeth rhwng Cymru a'r DU yn gyffredinol o ran sut mae pobl yn teimlo am faint o ryw sydd ar y teledu; mae ychydig o dan chwarter (23%) yn dweud hyn yng Nghymru ac yn y DU drwyddi draw. Mae'r un peth yn wir o ran eu teimladau am drais ar y teledu; dywedodd tua thraean (35%) yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol fod gormod o drais ar y teledu. Mae gwylwyr yng Nghymru yn llai tebygol o ddweud bod gormod o regi (28% o'i gymharu â 33% yn y DU yn gyffredinol).<sup>23</sup>


Pan holwyd a ydyn nhw'n teimlo bod rhaglenni teledu wedi gwella, gwaethygu neu aros yr un fath yn y 12 mis diwethaf, mae'r rheini yng Nghymru yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gwaethygu (28%) o'i gymharu â 23% yn y DU yn gyffredinol.<sup>24</sup>

Y rhesymau a roddwyd dros ddweud hyn oedd: mwy o ailddarllediadau (70%), diffyg ansawdd yn gyffredinol (41%) a diffyg amrywiaeth (51%).<sup>25</sup> Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethau hyn yn sylweddol.

Canran yr oedolion sydd wedi gweld rhywbeth i'w tramgwyddo ar y teledu...



Gormod o'r canlynol ar y teledu...



Y trothwy...

89% o oedolion yn ymwybodol o'r trothwy 9pm  
59% o oedolion yn credu bod 9pm yn amser addas ar gyfer y trothwy

28% o oedolion yn meddwl bod y safon wedi gwaethygu ar y teledu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y prif resymau dros hyn:

|                                   |     |
|-----------------------------------|-----|
| Mwy o ailddarllediadau            | 70% |
| Diffyg safon                      | 51% |
| Diffyg amrywiaeth                 | 41% |
| Gormod o raglenni realiti         | 40% |
| Mwy o drais                       | 22% |
| Mwy laith sarhaus                 | 19% |
| Mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol | 13% |
| Mwy o ryw                         | 12% |
| Mwy o noethni                     | 9%  |

21% o oedolion yn meddwl bod y safon wedi gwella ar y teledu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y prif resymau dros hyn:

|                                |     |
|--------------------------------|-----|
| Mwy diddorol/adloniadol        | 61% |
| Amrywiaeth ehangach o raglenni | 60% |
| Mwy o ddramâu/gwell            | 56% |
| Ansawdd gwell                  | 42% |
| Mwy o/gwell ffilmiau           | 31% |
| Mwy cyfoes                     | 28% |

<sup>23</sup> Traciwr cyfryngau ar draws llwyfannau Ofcom 2018

<sup>24</sup> Traciwr cyfryngau ar draws llwyfannau Ofcom 2018

<sup>25</sup> Traciwr cyfryngau ar draws llwyfannau Ofcom 2018. Mae'r rhain yn seiliedig ar 69 o'r ymatebwyr yng Nghymru sy'n dweud bod rhaglenni teledu wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf



# Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru

## Cyflwyniad

Mae'r BBC ac ITV yn darparu rhaglenni'n benodol i wylwyr yng Nghymru ar draws amrywiaeth o genres, ond yn fwyaf arbennig rhaglenni newyddion a materion cyfoes. Mae S4C yn sianel arbennig ar gyfer rhaglenni Cymraeg ar draws amrywiaeth eang o genres.

Yn 2018, gwelwyd cynnydd o 13% i £33.6m yng ngwariant y BBC ac ITV Cymru, gyda'i gilydd, ar raglenni i Gymru. Roedd y gwariant ar raglenni materion cyfoes yn £4.4m, i lawr o £4.6m yn y flwyddyn flaenorol; roedd y gwariant ar newyddion yn sefydlog ar £10.5m, ond roedd y gwariant ar raglenni eraill gan gynnwys adloniant cyffredinol yn 26% yn uwch ar £19m.

Mewn termau real, cynyddodd gwariant gan y BBC 16% i £27.3m yn 2018, y lefel uchaf ers 2009. Roedd gwariant ITV Cymru Wales ar raglenni lleol wedi cynyddu fymryn ar £6.3m.

Cynhyrchodd y BBC 615 awr o raglenni lleol yn 2018, tebyg i'r flwyddyn flaenorol, a chynhyrchodd ITV 343 awr o raglenni lleol, 4% yn fwy nag yn 2017.

Mae Cymru yn ffynhonnell bwysig hefyd o gynhyrchu cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ddangos ar draws y DU. Ychydig dros 3% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gafodd ei wario ar gynyrchiadau yng Nghymru yn 2018. Roedd Channel 4, yn arbennig, wedi cynyddu cyfran ei gynnwys a oedd yn cael ei wneud yng Nghymru yn 2018, a hynny mewn oriau a gwariant.

## Sut rydym yn adrodd ar wariant ar raglenni

Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymdrin â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y wlad a'u darlledu ar draws y DU. Mae'n canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU i'w ddarlledu am y tro cyntaf, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio.


Mae gwariant ar y cynnwys hwn yn cynnwys yr holl gostau a wynebwr gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu.



## Yn 2018, gwelwyd cynnydd o 13% yng ngwariant y BBC ac ITV Cymru, gyda'i gilydd, ar raglenni i Gymru

Cynyddodd cyfanswm y gwariant ar y math hwn o raglenni i £33.6m yn 2018, i fyny o £29.7m yn 2017. Roedd y gwariant ar raglenni materion cyfoes yn £4.4m, i lawr o £4.6m yn y flwyddyn flaenorol; roedd y gwariant ar newyddion yn sefydlog ar £10.5m, ond roedd y gwariant ar raglenni eraill gan gynnwys adloniant cyffredinol yn 26% yn uwch ar £18.7m.

**Ffigur 12: Gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Sylwer: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2018. Ddim yn cynnwys gwariant ar allbwn S4C.*

## Y BBC oedd y prif sbardun y tu ôl i wario mwy ar raglenni ar gyfer Cymru

Mewn termau real, cynyddodd gwariant gan y BBC 16% i £27.3m yn 2018, y lefel uchaf ers 2009. Mewn termau real, roedd gwariant ITV Cymru ar raglenni lleol wedi cynyddu fymryn ar £6.3m yn 2018.

**Ffigur 13: Gwariant y BBC ac ITV Cymru ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith ar gyfer Cymru (£m)**



*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Sylwer: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2018. Ddim yn cynnwys gwariant ar allbwn S4C.*

## Gofynion / ymrwymiadau rhaglenni lleol

Mae'n ofynnol bod ITV a'r BBC yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer gwylwyr yng Nghymru.

O dan delerau ei drwydded, a gafodd ei hadnewyddu ar 1 Ionawr 2015 am ddeng mlynedd, mae'n rhaid i ITV ddarparu nifer sylfaenol o raglenni sydd "o ddiddordeb arbennig" i'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r cwotâu ar gyfer newyddion a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion/materion cyfoes.

Mae'r cwotâu hyn yn mynnu bod ITV yn cynhyrchu 4 awr o newyddion ac 1 awr 30 munud yr wythnos o raglenni rhanbarthol nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Rhaid i 47 munud o'r rhaglenni hyn fod yn rhaglenni materion cyfoes.

Rhaid i'r BBC, drwy'r drwydded weithredu a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2018, hefyd gyflawni'r amodau rheoleiddio sy'n benodol i Gymru.


Ymysg pethau eraill, mae'r drwydded weithredu hon yn datgan bod yn rhaid i'r BBC, ym mhob Blwyddyn Ariannol, sicrhau:

- mewn perthynas â **BBC One Wales**, bod o leiaf 275 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a bod o leiaf 65 awr yn cael eu neilltuo i raglenni heb fod yn newyddion;
- mewn perthynas â **BBC Two Wales**, bod o leiaf 175 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion;
- mewn perthynas â **BBC One Wales** a **BBC Two Wales** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau eu bod yn darparu amrywiaeth o genres yn eu rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru.

## Roedd oriau cyffredinol BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru yn sefydlog yn 2018

Er bod oriau o raglenni newyddion wedi gostwng 4% ers 2017, mae oriau materion cyfoes wedi cynyddu 10% a genres eraill, gan gynnwys adloniant cyffredinol, wedi cynyddu 6%.

**Ffigur 14: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr

## BBC i gryfhau ei raglenni a'i wasanaethau ar-lein yng Nghymru

Mae buddsoddiad newydd o £8.5m yn BBC Cymru, a gyhoeddwyd fel rhan o'r pecyn Siarter newydd ar gyfer Cymru, wedi galluogi'r darlledwr i gryfhau ei raglenni a'i wasanaethau ar-lein ar draws amrywiaeth o lwyfannau. Yn 2018, cynyddodd ceisiadau BBC iPlayer am gynnwys BBC Cymru deirgwaith i 44 miliwn yn 2018, diolch i lwyddiant amrywiol gyfresi gan gynnwys *Keeping Faith*, gydag Eve Myles, a *Hidden*. Roedd y ddwy gyfres, sydd wedi'u comisiynu ar y cyd â S4C, yn y deg uchaf yn y DU o ddramâu a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar BBC iPlayer yn 2018, a bydd y ddwy'n dychwelyd gydag ail gyfres ar sgriniau rhwydwaith.

Fe roddodd y momentwm creadigol hwn hwb hefyd i'r ffordd y caiff Cymru ei phortreadu ar sgriniau rhwydwaith. Roedd cyfresi sy'n cael eu gwneud yng Nghymru fel *Back in Time for the Factory*, *The River Wye* a *Hidden Wales* yn gwneud yn dda gyda chynulleidfaoedd y DU.

Mae'r gwaith o ddatblygu canolfan ddarlledu newydd BBC Cymru yn Sgwâr Canolog Caerdydd yn parhau ar raddfa gyflym a gobeithio y bydd yn gwbl weithredol erbyn gwanwyn 2020. Bydd adeilad mwyaf agored a hygyrch y BBC yn agored i'r cyhoedd ac amrywiaeth eang o bartneriaid yn y sector creadigol. Bydd yr adeilad yn cynnig amryw o brofiadau dysgu, yn enwedig i gynulleidfaoedd iau sydd â dyhead i weithio yn y diwydiannau creadigol.

## Roedd ITV Cymru Wales wedi cynhyrchu 343 awr o raglenni lleol yn 2018

Roedd hyn yn gynydd o 4% ers 2017, a oedd yn cael ei sbarduno'n bennaf gan y twf yn nifer yr oriau o gynnwys newyddion i 268 awr. Mewn cyferbyniad â hynny, bu gostyngiad mewn rhaglenni materion cyfoes i 45 awr, i lawr o 50 yn 2017.

**Ffigur 15: Oriau ITV o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr

## ITV yng Nghymru

Mae ITV Cymru Wales yn parhau i ddenu cynulleidfaoedd mawr ar gyfer rhaglenni materion cyfoes a newyddion cenedlaethol sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru. Mae ei wasanaeth newyddion wedi buddsoddi rhagor mewn newyddiaduraeth arbenigol, gan ganolbwyntio ar feysydd polisi datganoledig ac mae wedi cynyddu ei gapasiti i ddarlledu'n fyw ar draws Cymru. Mae ei brif raglen newyddion min nos, *Wales at Six*, yn cael ei darlledu cyn rhaglen newyddion y DU ac mae nawr yn cael ei gwyllo gan fwy o bobl yng Nghymru na degawd yn ôl. Mae ITV Cymru hefyd yn cynnig lluosogrwydd drwy gyfres materion cyfoes sy'n dychwelyd, gan gyrraedd cynulleidfaoedd na fyddent fel arall efallai'n gweld cynnwys sy'n benodol i Gymru. Mae *Wales This Week* a *Coast & Country* yn cael eu darlledu yng nghanol amserlen oriau brig ITV, gan gynyddu'r cynulleidfaoedd ar gyfer y genre pwysig hwn.

Mae'r rhaglen wleidyddol wythnosol *Sharp End* yn gwneud yn well na Newsnight y BBC yng Nghymru yn rheolaidd. Mae ITV Cymru hefyd wrthi'n meithrin cynulleidfaoedd sylweddol ar gyfer newyddiaduraeth bwysig yr ymddiriedir ynddi, ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, yn aml gan gyrraedd cynulleidfaoedd iau yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae hefyd yn cynnig lluosogrwydd ar gyfer materion cyfoes a chynnwys ffeithiol yn yr iaith Gymraeg, gan gyflenwi S4C â nifer o'i rhaglenni mwyaf poblogaidd a'r rhai y mae'r mwyaf o drafod amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys y gyfres wleidyddol newydd *Y Byd yn ei Le*; y gyfres materion cyfoes sydd wedi ennill gwobr *Ein Byd* a chyfres materion cyfoes *Y Byd Ar Bedwar*, ynghyd â'r bytholwyrdd *Cefn Gwlad*.


Mae ITV Cymru yn cynhyrchu dros 300 awr o newyddion a materion cyfoes fel rhan o'i hymrwymiad yn y drwydded. Mae ITV hefyd yn gynhyrchydd o faint yng Nghymru ac yn chwaraewr pwysig yn y sector cynhyrchu yng Nghymru, gan gyflogi oddeutu 400 o bobl. Mae'r cwmnïau ITV Studios yng Nghaerdydd, Boom Cymru a Boomerang, yn gwneud tua 500 awr o raglenni bob blwyddyn - o raglenni plant i ddramâu sy'n dychwelyd ar gyfer S4C, y BBC, Channel 4, Channel 5 ac eraill.

## Ychydig dros 3% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gafodd ei wario ar gynyrchiadau yng Nghymru yn 2018

Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud rhaglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar eu sianeli teledu rhwydwaith mewn amrywiaeth o lefydd o amgylch y DU y tu allan i Lundain. Mae gan y darlledwyr gwotâu sy'n ymwneud â hyn, o ran y gyfran o oriau cymwys sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain, a chyfran y gwariant cymwys sy'n gorfod bod y tu allan i Lundain. Mae gan y BBC gwotâu unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU, a ddaeth i rym eleni, ac mae gan Channel 4 gwota 'tu allan i Loegr' hefyd.<sup>26</sup>

<sup>26</sup> I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar y pecyn cydymffurfio ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (a gyhoeddir ar yr un pryd â Chyfyngau'r Gwledydd) a'r canllawiau ar gyfer rhaglenni rhanbarthol [add link]

**Ffigur 16: Cyfran yr oriau rhwydwaith a'r gwariant cymwys y tu allan i Lundain, pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd: 2015-2018**



Roedd Channel 4 wedi cynyddu cyfran y cynnwys mae'n ei wneud yng Nghymru yn 2018. Roedd dwy gyfres o *Extreme Cakemakers* gan y darlledwr yn cyfrif fel cynyrchiadau Cymreig yn 2018, ochr yn ochr â'r gyfres sydd wedi bod yn rhedeg ers tro byd *One Born Every Minute*. Dim ond un teitl a oedd yn gymwys roedd ITV wedi'i wneud yng Nghymru yn 2018: *The Island Strait*, cyfres pedair pennod am y Fenai sy'n gwahanu Ynys Môn oddi wrth y tir mawr.

**Ffigur 17: Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: 2015-2018**

|           |              | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|-----------|--------------|------|------|------|------|
| BBC       | Gwariant (%) | 7.1  | 5.8  | 6.7  | 6.3  |
|           | Oriau (%)    | 4.9  | 4.3  | 4.4  | 4.6  |
| ITV       | Gwariant (%) | 0.3  | 0.1  | 0.01 | 0.01 |
|           | Oriau (%)    | 0.1  | 0.1  | 0.1  | 0.1  |
| Channel 4 | Gwariant (%) | 2.0  | 2.8  | 2.2  | 3.4  |
|           | Oriau (%)    | 2.6  | 2.4  | 2.7  | 4.2  |
| Channel 5 | Gwariant (%) | 0    | 0.3  | 0.4  | 0.2  |
|           | Oriau (%)    | 0.1  | 0.4  | 0.5  | 0.2  |



## Adroddiad Cynulliad Cymru ar gynyrchiadau ffilm a theledu


Ym mis Mai 2019 cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ei adroddiad<sup>27</sup> ar wneud cynyrchiadau ffilm a theledu mawr yng Nghymru a chanfu fod "perygl o golli momentwm os nad oes gennym ddigon o weithwyr medrus i gefnogi ein diwydiant sgrin sy'n tyfu". Dywedodd y pwyllgor y byddai angen rhagor o gefnogaeth ar y diwydiant ffilm a theledu 'cynhenid', gan sicrhau bod criwiau Cymreig yn elwa o fuddsoddiad y llywodraeth.

### Gwariodd S4C £61m ar raglenni a gomisiynwyd ac a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn 2018-2019

Yn y cyfnod 2018/2019, gwariodd S4C £61m ar raglenni comisiwn gwreiddiol ar draws wyth genre gwahanol o gynnwys. Cafodd y rhan fwyaf ei wario ar ddramâu (£14m) a rhaglenni ffeithiol cyffredinol (£15m), a oedd yn cynrychioli bron i hanner cyfanswm gwariant S4C ar raglenni comisiwn gwreiddiol gan roi ffigur cyfun o £29m.

O ran oriau, roedd dramâu yn cynrychioli 94 awr o raglenni comisiwn gwreiddiol, ac roedd rhaglenni ffeithiol cyffredinol yn cynrychioli 657 awr. Roedd gwario £9m ar raglenni comisiwn chwaraeon gwreiddiol wedi cyfrannu at yr ail lefel uchel o oriau, sef 322 awr o raglenni a ddarlledwyd.

**Ffigur 18. Gwariant S4C ar gomisiynau a ddangoswyd am y tro cyntaf: 2018-19 (£m)**



*Ffynhonnell: S4C. Nodyn: mae rhaglenni materion cyfoes yn cynnwys y tywydd.*

<sup>27</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12524/cr-ld12524-e.pdf>

# Radio a sain

## Cyflwyniad

Mae radio yn dal yn boblogaidd ar draws y DU ac yng Nghymru, lle mae naw oedolyn o bob deg yn gwrandao bob wythnos. Mae gwrandawyr yng Nghymru hefyd yn gwrandao ar radio bob wythnos yn fwy nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU; dros 22 awr ar gyfartaledd.

Mae gorsafoedd y BBC ar draws y DU yn cael cyfran fwy o'r gwrandao yng Nghymru nag yn unrhyw un o'r gwledydd eraill, ac mae gorsafoedd masnachol ar draws y DU yn cael cyfran is o'r gwrandao nag mewn mannau eraill. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith mai BBC Radio 2 yw'r orsaf fwyaf poblogaidd ar draws Cymru.


Yn y cyfamser, mae'r nifer sy'n berchen ar seinyddion clyfar, ac yn eu defnyddio i ffrydio cerddoriaeth a gwrandao ar radio byw, wedi cynyddu, bron i chwarter (24%) y cartrefi.

## Roedd 78 gwasanaeth radio yn darlledu ar DAB yng Nghymru ym mis Mawrth 2019

Mae nifer y gorsafoedd sy'n darlledu ar DAB yng Nghymru wedi codi i 78 ac mae hyn yn cymharu â llai na 50 bum mlynedd yn ôl.<sup>28</sup> Mewn cymhariaeth, mae 36 o orsafoedd yn darlledu ar analog, gan gynnwys naw gorsaf radio cymunedol.

**Ffigur 19: Argaeledd gorsafoedd radio yng Nghymru**

Argaeledd gorsafoedd radio yng Nghymru



*Ffynhonnell: BBC / Ofcom, Mawrth 2019.*

*Sylwer: Mae'r siart hwn yn dangos uchafswm y gorsafoedd sydd ar gael; mae amrywiadau lleol a materion yn ymwneud â derbyniad yn golygu na fydd gwrandawyr o reidrwydd yn gallu cael gafael ar bob un ohonynt. Mae ffigur digidol y BBC i gyd yn cynnwys Radio Cymru 2. Mae'r ffigur digidol masnachol lleol yn cyfeirio at nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni gan amblecsau DAB lleol yng Nghymru. Ni fydd cynnwys lleol ym mhob un*

<sup>28</sup> Efallai fod rhywfaint o ddyblygu o ran y gwasanaethau sy'n cael eu cyfri yma, lle caiff gwasanaethau eu darlledu ar fwy nag un amblecs lleol yng Nghymru.

*o'r gwasanaethau, ac efallai y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu darlledu ar nifer o wahanol amblecsau (ond yn dal i gael eu hystyried yn wasanaethau unigol at y dibenion hyn).*


## Mae gwasanaethau DAB gan y BBC ar gael i 92% o gartrefi yng Nghymru

Nid yw darpariaeth y tri phrif amblecs radio, y seilwaith trawsyrru a ddefnyddir i ddarlledu gorsafoedd radio DAB, wedi newid ers 2019.

Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth o'r ail amblecs masnachol cenedlaethol, a weithredir gan Sound Digital, wedi cynyddu dros y flwyddyn o 52% i 57% o gartrefi ac mae wedi ychwanegu trosglwyddydion at ei rwydwaith.<sup>29</sup>

Mae argaeledd amblecsau DAB lleol, sy'n trosglwyddo dau wasanaeth cenedlaethol y BBC ar gyfer Cymru, Radio Cymru a Radio Wales, yn is yng Nghymru (83%) nag yn unrhyw un o wledydd eraill y DU.

**Ffigur 20: Darpariaeth DAB mewn aelwydd: 2019**



*Ffynhonnell: BBC, Arqiva, Ofcom, Mawrth 2019.*

## Ôl-troed mwy ar gyfer BBC Radio Wales


Yn 2018 roedd ôl-troed FM BBC Radio Wales wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach ar gael i 91% o aelwydydd yng Nghymru – cynnydd mewn darpariaeth o hyd at 400,000 o bobl a dros 550 milltir o ffyrdd – o'i gymharu â'r 79% blaenorol yn genedlaethol. Mae'r hwb yn cyd-daro â dathliadau pen-blwydd mawr Radio Wales yn 40 oed ac roedd yn rhan o ymrwymiad a wnaed gan BBC Cymru i gynyddu argaeledd yr orsaf fel rhan o'i raglen waith ar ôl pecyn ail-fuddsoddi'r Siarter.

<sup>29</sup> <https://www.arqiva.com/news/press-releases/sound-digital-announces-imminent-completion-of-dab-radio-network-expansion/>

## Roedd naw deg y cant o oedolion wedi gwrandao ar y radio bob wythnos yng Nghymru yn Ch1 2019

Roedd naw oedolyn o bob deg wedi gwrandao ar y radio bob wythnos yng Nghymru yn Ch1 2019, ac am gyfartaledd o ychydig dros 22 awr yr wythnos, maen nhw'n gwrandao am gyfnodau hirach nag oedolion yn unrhyw un o wledydd eraill y DU. Mae gorsafoedd radio masnachol wedi denu mwy o wrandawyr na Radio'r BBC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynyddu eu cyrhaeddiad o 60% i 64% tra bod Radio'r BBC wedi gostwng o 71% i 68% yn ystod yr un cyfnod.

**Ffigur 21: Oriau gwrandao a chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog**




*Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), Ch1 2019*

*Lloegr = BBC Radio Lleol yn TSA Lloegr; Yr Alban = TSA BBC Radio Scotland; Cymru = TSA Radio BBC Cymru Wales; Gogledd Iwerddon = TSA BBC Radio Ulster. Caiff cyrhaeddiad ei ddiffinio fel canran poblogaeth oedolion yr ardal sy'n gwrandao ar orsaf am o leiaf bum munud mewn wythnos arferol.*

## Mae gorsafoedd radio rhwydwaith y BBC yn boblogaidd ymysg gwrandawyr yng Nghymru

Fel cyfran o'r holl wrando ar y radio, mae mwy o amser yn cael ei dreulio yng Nghymru yn gwrandao ar wasanaethau'r BBC ar gyfer y DU i gyd nag yn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae bron i chwarter o'r gyfran o oriau gwrandao yng Nghymru yn perthyn i BBC Radio 2 (24.2%). Mewn cyferbyniad, mae gan wasanaethau masnachol lleol gyfran is o oriau gwrandao yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill. Mae gan orsafoedd masnachol gyrhaeddiad is yng Nghymru (41%) nag yng ngwledydd eraill y DU (56% yn yr Alban, 59% yng Ngogledd Iwerddon).

**Ffigur 22: Cyfran o'r oriau gwrando, yn ôl gwlad**



Ffynhonnell: RAJAR, pob oedolyn (15+), Ch1 2019.

Lloegr = BBC Radio Lleol yn TSA Lloegr; Yr Alban = TSA BBC Radio Scotland; Cymru = TSA Radio BBC Cymru Wales; Gogledd Iwerddon = TSA BBC Radio Ulster.

## Adroddiad y Cynulliad Cenedlaethol ar wasanaethau radio yng Nghymru

Cyhoeddodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu adroddiad ar radio yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2018.<sup>30</sup> Roedd ymchwiliad y Pwyllgor yn edrych i weld i ba raddau y mae gwasanaethau radio BBC Wales, gwasanaethau radio masnachol a gwasanaethau radio cymunedol yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yng Nghymru. Gwnaeth y Pwyllgor 16 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Ofcom a'r BBC a oedd yn cynnwys:

Dylai'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ystyried cyflwyno gofyniad rheoleiddio ar gyfer gorsafoedd radio masnachol yng Nghymru i adrodd ar newyddion sy'n benodol i Gymru, yn ogystal â newyddion lleol ac ar gyfer y DU, fel rhan o'i diwygiad o radio masnachol.

Dylai Ofcom edrych ar gystadleuaeth yn y diwydiant radio masnachol yng Nghymru i weld sut gellid annog mwy o berchnogaeth ac amrywiaeth yn y farchnad.


Dylai Ofcom wneud mwy i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod y Gronfa Radio Cymunedol ar gael yng Nghymru y mae'n ei gweithredu ar ran yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

<sup>30</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11993/cr-ld11993-w.pdf>

## Roedd radio masnachol lleol wedi cyrraedd mwy na phedwar oedolyn o bob pump yng Nghymru

Roedd mwy na phedwar oedolyn o bob pump wedi gwrandao ar orsafoedd masnachol lleol (43.9%) gyda llai nag un o bob pump yn gwrandao ar radio lleol/gwledydd y BBC (17.6%) yn Ch1 2019. Ar draws y DU, roedd llai na hanner yr oedolion yn gwrandao ar radio masnachol lleol a llai na 15% yn gwrandao ar orsafoedd BBC lleol.

**Ffigur 23: Cyrraeddïad wythnosol radio lleol, BBC o'i gymharu â masnachol**




*Ffynhonnell: RAJAR, Ch1 2019.*

## Gwrandao ar radio byw ydy'r gweithgaredd sain mwyaf poblogaidd yng Nghymru

O'r holl amser sy'n cael ei dreulio bob wythnos yn gwrandao ar unrhyw fath o sain, roedd 77% o hyn yn radio. Mae hyn yn uwch na chyfran yr amser sy'n cael ei dreulio yn gwrandao ar radio ar draws Prydain Fawr (73%).



**Ffigur 24: Cyfran o'r glust – Cymru 15+**




*Ffynhonnell: TouchPoints 2018.*

*Sail: Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth: Cymru.*

Cerddoriaeth ydy'r math o gynnwys sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf gan wrandawyr ar draws Prydain Fawr, wedi'i ddilyn gan newyddion cenedlaethol. Fodd bynnag, ar gyfer gwrandawyr yng Nghymru, darpariaeth newyddion lleol yw'r ail fath o gynnwys sy'n cael ei werthfawrogi fwyaf. Ac mae gwrandawyr yng Nghymru yn llai tebygol na'r rheini yn yr Alban neu ledled Prydain Fawr i ddweud eu bod yn gwerthfawrogi newyddion cenedlaethol neu ryngwladol.

**Ffigur 25: Y deg math o gynnwys a werthfawrogir fwyaf ar y radio**



*Ffynhonnell: TouchPoints 2018.*

*Sail: Gwrandawyr radio wythnosol 15+.*

*Yn ôl gwrandawyr yng Nghymru.*

## Mae'r nifer sy'n berchen ar seinyddion clyfar wedi dyblu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Mae mwy a mwy yn defnyddio seinyddion clyfar yn eu cartrefi, gyda phobl yn eu defnyddio i ffrydio cerddoriaeth a gwrandio ar gerddoriaeth fyw, a chael gafael ar adroddiadau am y tywydd neu osod larymau personol. Roedd bron i chwarter (24%) y cartrefi yng Nghymru yn berchen ar seinydd clyfar yn 2019, sy'n gynydd o 11% yn 2018.

Ymysg y cartrefi yng Nghymru sydd â seinydd clyfar, y tri phrif weithgaredd honedig ar y ddyfais hon oedd: gwrandio ar orsaf radio yn fyw (59%), chwilio am wybodaeth ar-lein (55%), a gwrandio ar gerddoriaeth drwy wasanaeth wedi'i ffrydio fel Spotify neu Apple Music (48%).<sup>31</sup>

## Mae bron i draean o oedolion wedi gwrandio ar bodlediadau neu wasanaethau gwrandio-eto

Yn 2019, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi a oeddent erioed wedi defnyddio gwasanaethau gwrandio-eto neu bodlediadau gan ddarparwyr amrywiol. Dywedodd tri o bob deg (30%) o'r ymatebwyr yng Nghymru eu bod wedi defnyddio'r gwasanaethau hyn, sy'n debyg i'r gyfradd yn Lloegr (34%) a'r Alban (25%), ond yn uwch na'r gyfradd yng Ngogledd Iwerddon (22%).

Roedd bron i chwarter (24%) wedi dweud eu bod wedi defnyddio'r BBC ar gyfer y gwasanaethau hyn, wedi'i ddilyn gan y rheini a oedd yn defnyddio radio masnachol y DU (14%) neu ddarparwyr eraill yn y DU (11%). Defnyddio darparwyr nad oeddent yn y DU oedd â'r lefel isaf o ran gwasanaethau gwrandio-eto neu bodlediadau, sef 4%.<sup>32</sup>

### Podledu yng Nghymru

Yng Nghymru, mae amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys y BBC yn creu ac yn dosbarthu podlediadau sy'n rhoi sylw i amrywiaeth o bynciau mewn Cymraeg a Saesneg gan gynnwys gwleidyddiaeth, materion cyfoes, y celfyddydau a chwaraeon.

Hyd yn hyn, mae podlediadau Cymraeg y BBC bron yn gyfan gwbl wedi cael eu tynnu o gynnwys sydd wedi cael ei ddarlledu ar BBC Radio Cymru. Fodd bynnag, ym mis Mai 2019, cyhoeddodd BBC Cymru y byddai'n comisiynu saith podlediad gwreiddiol i'w dosbarthu ar BBC Sounds.<sup>33</sup>

Mae rhai o raglenni teledu comisiwn S4C hefyd wedi cynnwys podlediadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, er enghraifft mae gan *FFIT Cymru* sef rhaglen am fyw'n iachach bodlediad cysylltiedig. Mae podlediadau sydd â chynnwys dal i fyny hefyd yn cael eu cynhyrchu a'u dosbarthu gan orsafoedd radio masnachol a radio cymunedol sy'n darlledu yng Nghymru.

Fel mewn rhannau eraill o'r DU, mae brandiau newyddion yng Nghymru hefyd wedi lansio'u podlediadau, sy'n cynnwys newyddion, materion cyfoes a chwaraeon fel *Martin Shipson Meets*

<sup>31</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019

<sup>32</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019

<sup>33</sup> <https://www.bbc.co.uk/mediacentre/latestnews/2019/welsh-podcasts>

Walesonline a *The Welsh Rugby Podcast*. Walesonline yw'r porth ar-lein ar gyfer nifer o deitlau papurau newydd yng Nghymru, gan gynnwys y Western Mail a'r South Wales Echo.

Mae rhai podlediadau Cymraeg wedi cael eu targedu at ddysgwyr, neu wedi cael eu creu gan feddwl am ddysgwyr. Er enghraifft, mae *Hacio'r Iaith*<sup>34</sup> yn bodllediad newyddion technoleg Cymraeg sy'n hyrwyddo trafod technoleg drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae wedi'i anelu at siaradwyr rhugl a dysgwyr. Mae enghreifftiau eraill o bodlediadau Cymraeg annibynnol yn cynnwys *Sôn am Sîn*<sup>35</sup> (podllediad cerddoriaeth) a *Podpeth*<sup>36</sup> (podllediad trafod).


## Mae bron i chwech oedolyn o bob deg yng Nghymru yn berchen ar radio digidol

Roedd bod yn berchen ar setiau radio DAB yng Nghymru wedi aros ar 58% yn Ch1 2019, gan gynnwys yn y cartref ac yn y car, ac mae'n 2 pwynt canran yn uwch na blwyddyn yn ôl.<sup>37</sup>

Roedd y niferoedd a oedd yn eu defnyddio yn uwch ar draws y DU drwyddi draw (67%) ac yn yr Alban (70%) ar ddechrau 2019 ond roedd yn dal yn is yng Ngogledd Iwerddon, ar 46%.<sup>38</sup>

Roedd un gwrandawr radio o bob deg (11%) yng Nghymru nad oes ganddynt set radio DAB gartref wedi dweud eu bod yn debygol o brynu un yn ystod y 12 mis nesaf; roedd y mwyafrif (70%) yn annhebygol o wneud hynny, ac roedd 19% yn ansicr.<sup>39</sup>

**Ffigur 26: Perchnogaeth DAB**



Ffynhonnell: RAJAR, Ch1 ym mhob blwyddyn.

<sup>34</sup> <https://haciaith.cymru>

<sup>35</sup> <https://sonamsin.cymru/>

<sup>36</sup> <https://ypodpeth.podbean.com/>

<sup>37</sup> RAJAR, Pob oedolyn 15+, Ch1 2019


<sup>38</sup> RAJAR, Pob oedolyn 15+, Ch1 2019

<sup>39</sup> Traciwr Technoleg Ofcom 2019

## Roedd gwrando digidol wedi cynyddu ychydig yn ystod 2019

Roedd cyfran y gwrando a gafodd ei wneud drwy lwyfannau digidol – DAB, DTT ac ar-lein (gan gynnwys seinyddion clyfar) – yng Nghymru wedi cynyddu mymryn ers y flwyddyn ddiwethaf. Yn Ch1 2019, roedd y ffigur yn 47.8%, i fyny 1.2 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 27: Cyfran yr oriau gwrando drwy lwyfannau digidol ac analog yng Nghymru: 2013-2019**




*Ffynhonnell: RAJAR, Ch1 bob blwyddyn, TSA BBC Radio Wales.*

Mae cyfran y gwrando digidol yng Nghymru yn is na'r gyfran yn Lloegr (57.4%) a'r Alban (55.1%) ond yn uwch na'r gyfran yng Ngogledd Iwerddon (39.5%).

Mae'r amser a dreulir yn gwrando ar-lein wedi cynyddu mwy yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad arall (32% o'i gymharu â 18% ar draws y DU drwyddi draw); mae 20% o oedolion yng Nghymru bellach yn gwrando fel hyn.

**Ffigur 28: Y gyfran o oriau gwrando drwy lwyfannau digidol ac analog**



*Ffynhonnell: RAJAR, Ch1 2019; yn BBC Radio TSA ar gyfer pob gwlad.*

## Paratoi ar gyfer DAB ar raddfa fach

Mae DAB ar raddfa fach yn ffordd newydd o drawsyrro radio digidol. Mae'n defnyddio datblygiadau mewn meddalwedd a thechnoleg gyfrifiadurol rad i ddarparu dull gweithredu hyblyg a fforddiadwy i ddarlledu gwasanaethau radio digidol yn diriogaethol i ardal ddaearyddol gymharol fach.

Cafodd y cysyniad ei brofi am y tro cyntaf gan un o beirianwyr Ofcom, Rashid Mustapha, yn 2012. Yn dilyn hynny ariannodd llywodraeth y DU gyfres o dreialon, a oedd wedi'u trwyddedu a'u hwyluso gan Ofcom, i brofi pa mor ymarferol yw'r dechnoleg. Roedd y treialon yn dangos bod DAB ar raddfa fach yn gallu bod yn ffordd gadarn a dibynadwy i orsafoedd analog bach ddarlledu ar ddigidol, yn ogystal â'r rheini sy'n dymuno lansio gwasanaethau radio newydd ar lwyfan tiriogaethol digidol.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Ofcom ei gynlluniau i drwyddedu DAB ar raddfa fach, drwy ddefnyddio'r pwerau newydd mae llywodraeth y DU, drwy'r Senedd Brydeinig, yn cynnig eu rhoi i ni. Bydd hyn yn golygu bod ystod ehangach o lawer o orsafoedd masnachol a chymunedol yn gallu darlledu ar lwyfan radio digidol DAB y DU.

Ar ôl yr [ymgyngoriad](#), mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn gynnar yn 2020.

## BBC Radio 2 oedd yr orsaf radio fwyaf poblogaidd yng Nghymru yn Ch1 2019

BBC Radio 2 oedd yr orsaf radio y gwrandawyd arni fwyaf ar draws Cymru yn Ch1 2018<sup>40</sup> gyda chyrhaeddiad wythnosol o 35.7%, wedi'i dilyn gan BBC Radio 1 ar 19.8% a BBC Radio 4 gyda 17.4%.

BBC Radio 2 oedd yr orsaf y gwrandawyd arni fwyaf yng Nghaerdydd<sup>41</sup>, gyda chyrhaeddiad wythnosol o 33.4%. Heart South Wales Global oedd yr ail orsaf radio fwyaf poblogaidd yn ardal Caerdydd, gyda chyrhaeddiad o 20.8%. Ar draws Gogledd Cymru<sup>42</sup>, y tair gorsaf fwyaf poblogaidd oedd BBC Radio 2, BBC Radio 4 a BBC Radio 1.

**Ffigur 29: Y tair prif orsaf radio, yn ôl rhanbarth**

|       | Y DU        |                           | Cymru*      |                           | Caerdydd**          |                           | Gogledd Cymru*** |                           |
|-------|-------------|---------------------------|-------------|---------------------------|---------------------|---------------------------|------------------|---------------------------|
| Safle | Gorsaf      | Cyrhaeddiad wythnosol (%) | Gorsaf      | Cyrhaeddiad wythnosol (%) | Gorsaf              | Cyrhaeddiad wythnosol (%) | Gorsaf           | Cyrhaeddiad wythnosol (%) |
| 1     | BBC Radio 2 | 28.0%                     | BBC Radio 2 | 35.7%                     | BBC Radio 2         | 33.4%                     | BBC Radio 2      | 46.8%                     |
| 2     | BBC Radio 4 | 20.1%                     | BBC Radio 1 | 19.8%                     | Heart South Wales   | 20.8%                     | BBC Radio 4      | 21.9%                     |
| 3     | BBC Radio 1 | 17.0%                     | BBC Radio 4 | 17.4%                     | Capital South Wales | 20.6%                     | BBC Radio 1      | 21.7%                     |

Ffynhonnell: RAJAR. Pob oedolyn 15+, Ch1 2019

\* TSA BBC Radio Wales

\*\* TSA Capital De Cymru

\*\*\* TSA Heart Gogledd Cymru


<sup>40</sup> TSA BBC Radio Wales RAJAR

<sup>41</sup> TSA Capital De Cymru RAJAR sy'n cynrychioli tua 40% o boblogaeth oedolion Cymru.

<sup>42</sup> TSA Heart Gogledd Cymru RAJAR, sy'n cynrychioli tua 727,000 o oedolion.

Fel rheol, ar draws y DU, y cyfnod gwrandio brig ydy rhwng 8am a 9am. Ond yng Nghymru y brig yn Ch1 2019 oedd rhwng 10am a 10:30am, pan roedd tua 15-16% o'r boblogaeth yn gwrandio ar *The Ken Bruce Show*. Ar draws y rhaglen i gyd,<sup>43</sup> cyrhaeddodd 20% o'r boblogaeth yn ardal Caerdydd, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar draws y DU (16%).

**Ffigur 30: Cynulleidfa gyfartalog ar draws y dydd yng Nghaerdydd, dydd Llun i ddydd Gwener**




Ffynhonnell: RAJAR, pob oedolyn 15+, Ch1 2019  
TSA Capital De Cymru

## Roedd gwasanaethau'r BBC yn cyfrif am dros hanner y gwrandio ar y radio yn Ch1 2019

Mae gwasanaethau rhwydwaith y BBC yn cynrychioli bron i hanner yr holl wrando ar y radio yng Nghymru (49%). Wrth gyfuno hynny â gwasanaethau lleol/gwledydd y BBC, mae cyfran gwrandio'r Gorfforaeth yn codi i 57%. Mae Global a Communicorp sydd, rhyngddynt, yn gweithredu'r rhwydweithiau Capital, Heart a Smooth yng Nghymru yn cynrychioli 19% o'r gwrandio ac mae Bauer, sy'n berchen ar Swansea Sound a The Wave, yn cynrychioli 9% o'r gwrandio.

**Ffigur 31: Y gyfran o'r gwrandio yng Nghymru, yn ôl grŵp radio**



Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), Ch1 2019, BBC Radio Wales TSA


<sup>43</sup> 09:30-12pm Llun-Gwener



## Roedd refeniw radio masnachol ar gyfer gorsafoedd lleol wedi disgyn 10% yn 2018

Roedd gorsafoedd radio masnachol analog lleol yng Nghymru wedi cynhyrchu £5.84 y pen o'r boblogaeth yn 2018. Hwn oedd yr isaf o blith gwledydd y DU.

**Ffigur 32: Refeniw radio masnachol / lleol, y pen: 2018 (£)**



*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Sylwer: Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud yn llwyr â'r trosiant perthnasol a gofnodwyd ar gyfer trwyddedau AL (analog lleol masnachol) ac maent yn cynnwys refeniw lleol a chenedlaethol a nawdd h.y. nid dim ond y refeniw sy'n gysylltiedig â hysbysebion sydd wedi'u hanelu ar gyfer gwlad benodol. Ffigurau YoY wedi'u haddasu ar gyfer CPI.*